

Y cylch rheoli gwrych




y goedwig hir
long forest



Gwrychoedd yng Nghanolbarth Cymru. Llun: Cadwch Gymru'n Daclus.

Mewn nifer o ffyrdd, mae ein gwrychoedd yn debyg i ymylon coetiroedd. Mae'r naill a'r llall yn gyfoethog o ran bywyd gwyllt ac maen nhw'n cynnwys rhywogaethau prysgwydd tebyg. Yn bwysig, mae'r ddau'n ddeinamig a heb unrhyw reolaeth byddent yn datblygu'n naturiol i fod yn rhesi o goed. Mae gwrychoedd yn nodweddion byw ac mae'n anorfod bod eu strwythur yn newid gydag amser wrth i'r llwyni a'r coed ynddynt heneiddio. Fel rheolwyr, ni allwn atal gwrych rhag newid dros amser neu ei ddal ar unrhyw gam penodol yn ei ddatblygiad am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ymgais i wneud hyn yn methu a bydd yn achosi dirywiad yng nghyflwr ffisegol y gwrych a'i werth i fywyd gwyllt.

I reoli gwrychoedd yn llwyddiannus, mae'n rhaid i ni ddeall sut y gallwn reoli eu tyfiant naturiol a'u patrymau heneiddio heb roi straen arnynt a fydd yn achosi difrod hirdymor i'w strwythur ffisegol.

Trwy ddylanwadu'n ofalus ar dyfiant naturiol gwrychoedd, gallwn ymestyn y cyfnod rhwng digwyddiadau rheoli costus megis plygu neu fondocio'r gwrych.

Mae'r daflen hon yn disgrifio sut i 'ddarllen' gwrych a gwneud penderfyniadau cost-effeithiol ynghylch rheolaeth a fydd yn sicrhau dyfodol iach a hir iddo.

Y cylch rheoli gwrych

Mae llawer o wrychoedd ledled y wlad naill ai wedi'u gor-reoli neu wedi'u hesgeuluso. Mae'n nodwedd o wrychoedd sydd wedi'u gor-reoli eu bod wedi'u torri ar yr un uchder am gymaint o amser fel bod bylchau wedi ymddangos a'r cyffion wedi mynd yn gnotiog a cham. Ar y llaw arall, mae gwrychoedd a esgeuluswyd yn tyfu mor dal fel eu bod yn colli eu haen o lwyni ac mewn perygl o ddisgyn. Bydd angen adnewyddu gwrych sydd wedi cyrraedd y naill neu'r llall o'r eithafion hyn. Ar ôl adnewyddu, bydd gennym y cyfle i gadw'r gwrych yn drwchus ac iach am lawer o flynyddoedd cyn y bydd yn barod i'w adnewyddu eto drwy ei blygu neu ei fondocio eto.

Codi'r uchder yn gynyddol yw'r allwedd i'r cylch rheoli gwrych, gan alluogi gwrych yn ystyriol i ddatblygu'n araf drwy ei gylch tyfiant naturiol heb roi unrhyw straen niweidiol arno. Mae hyn hefyd yn creu gwrych trwchus ac iach ac mae'n ymestyn y cyfnod rhwng adnewyddiadau. Wrth ddefnyddio'r dull hwn, mae'n bosibl y bydd gwrych yn cymryd nifer o ddegawdau i gwblhau cylch llawn o dyfiant, a thrwy gydol y cyfnod hwn bydd yn aros yn drwchus, yn iach ac yn weithredol. Er enghraifft, wrth godi'r uchder torri 10cm bob tair blynedd, bydd yn cymryd dros 30 mlynedd i'r gwrych gynyddu dim ond metr mewn taldra.

Gwrych wedi'i blygu ar dyddyn, Canolbarth Cymru. Llun: Cadwch Gymru'n Daclus.





Y raddfa rheoli gwrychoedd

Datblygwyd y raddfa hon gan ddefnyddio gwrych nodweddiadol o Ganolbarth Lloegr o ddrain gwynion yn bennaf, ond gellir defnyddio nifer o'r agweddau gyda mathau eraill o wrychoedd sy'n bodoli ledled Cymru. Mae'r raddfa'n gweithio drwy ddefnyddio cyflwr ffisegol gwirioneddol y gwrych fel ffactor allweddol ar gyfer penderfynu ar reolaeth briodol. I ddefnyddio'r raddfa, edrychwch ar strwythur ffisegol eich gwrych, yn y gaeaf sydd orau, a dewiswch pa rif ar y raddfa sydd debycaf iddo. Mae'r dull rheoli a argymhellir i'w weld gyferbyn â'r rhif hwnnw.

Gwrych ar bwynt 1 ar y raddfa. Dyma wrych bylchog wedi'i or-docio ac mae'n marw. Ar ben arall y raddfa, mae gwrych ar bwynt 10 yn un sydd wedi troi'n rhes o goed. Rhyngddynt mae'r holl gamau tyfiant a chyflwr y gallai gwrych fynd drwyddynt. Dylai rheolaeth anelu at gadw'r gwrych yn iach bob amser drwy ganiatáu iddo gylchdroi rhwng pwyntiau 3 ac 8. Mae gwrych iach yn un sydd â chyffion cryf niferus gydag ychydig iawn o bydru neu droi, dim bylchau a thyfiant trwchus yn agos i'r ddaear. Hefyd mae gwrych iach yn cynnig nifer o ddewisiadau ar gyfer ei reoli.

- 1 **Wedi'i or-docio gyda llawer o fylchau a chyffion prin y mae eu bonion yn gnotiog neu'n pydru. Mae'n bosibl ei fod yn frith o ysgaw, sycamorwydd neu rywogaethau ymledol eraill.**
CAMAU GWEITHREDU Bondocio ac ailblannu'r bylchau. Diwreiddio neu ddinistrio chwyn ymledol. Os ydych yn defnyddio chwynladdwyr, byddwch yn ofalus iawn nad ydych yn niweidio'r gwrychoedd presennol nac unrhyw blanhigion difyr sy'n tyfu ar y ddaear.
- 2 **Wedi'i or-docio, cyffion prin sy'n rhy bell oddi wrth ei gilydd i'w defnyddio ar gyfer plygu, tystiolaeth efallai o blygu yn y gorffennol. Cymalau caled ar y llinell docio, llwyni'n datblygu tyfiant ar ffurf madarch.**
CAMAU GWEITHREDU Bondocio ac ailblannu'r blychau.
- 3 **Wedi'i or-docio, cyffion niferus. Mae'r cyffion yn dal yn iach ond mae angen iddynt fod yn dalach. Mae'n bosibl bod cymalau caled yn dechrau ffurfio ar y llinell docio.**
CAMAU GWEITHREDU Codi'r uchder yn gynyddol bob tro wrth dorri, neu adael i gyffion dyfu rhywfaint ar gyfer eu plygu.
- 4 **Gwrych wedi'i blygu, ei fondocio neu ei blannu'n ddiweddar.**
CAMAU GWEITHREDU Tocio ysgafn yn ystod y blynyddoedd cyntaf, wedyn torri ar gylchdro pob dwy, neu'n ddelfrydol, pob tair blynedd neu fwy, gan gynyddu'r uchder ychydig bach bob tro.
- 5 **Gwrych iach, trwchus gyda chyffion niferus, dros 2m o uchder.**
CAMAU GWEITHREDU Tocio ar gylchdro pob dwy, neu'n ddelfrydol, pob tair blynedd neu fwy. Codi'r uchder torri os bydd cymalau caled yn ffurfio ar y llinell dorri.
- 6 **a) Gwrych dros 3m o uchder sy'n cael ei docio ar gylchdro. b) Mae'n bosibl mai gwrych heb ei drin ydyw, a adawyd yn fwriadol heb ei docio ers nifer o flynyddoedd.**
CAMAU GWEITHREDU a) Peidio â thrin y gwrych am gyfnod. b) Adnewyddu ffurf y gwrych â llif gron ac wedyn dychwelyd at docio ar gylchdro neu gyfnod o beidio â thrin.
- 7 **Gwrych â chyffion iach niferus sydd dros 4m o uchder.**
CAMAU GWEITHREDU Plygu neu leihau uchder a lled gyda llif gron. Hefyd byddai'n ymateb yn dda i fondocio.
- 8 **Gwrych aeddfed uchel gyda'r topiau'n lledu. Cyffion yn dal yn iach (er y gallent fod yn brin) ond yn rhy fawr (dros 18cm mewn diamedr) ar gyfer eu plygu.**
CAMAU GWEITHREDU Naill ai lleihau'r uchder a'r lled gyda llif gron neu fondocio ac ailblannu bylchau os oes angen.
- 9 **Gwrych goraeddfed gyda'r topiau'n marw yn ôl, mae disgyn yn bosiblwydd. Efallai bod rywogaethau coed megis deri, ynn neu sycamorwydd yn flaenllaw.**
CAMAU GWEITHREDU Bondocio, gan ddewis rhai coed iach i'w cadw, a phlannu yn y bylchau.
- 10 **Gwrych wedi datblygu'n rhes o goed.**
CAMAU GWEITHREDU Ei reoli fel rhes o goed, gan deneuo'r tyfiant yn ddetholus os oes angen. Os oes llwyni'n dal i fodoli o dan y coed, codi uchder canopi'r coed i roi mwy o olau.

Cofier na ellir cadw gwrych ar un pwynt penodol ar y raddfa am gyfnod amhenodol. Bydd gwrych ar bwynt 4 ar y raddfa, o'i docio'n barhaus ar yr un uchder, yn dirywio yn y pen draw i bwynt 1. Ar y llaw arall, os na chaiff y gwrych ei reoli o gwbl, bydd yn datblygu dros amser i bwynt 8 neu du hwnt.

Mathau o reolaeth



Tocio

Wrth wneud hynny'n ystyriol, mae torri â pheiriant ffustio'n gallu cynnal gwrych trwchus am lawer o flynyddoedd. Fodd bynnag, bydd torri yn ôl yn flynyddol i'r un pwynt dros gyfnod o flynyddoedd yn arwain at niwed difrifol i'r gwrych. Yn ffodus, mae dulliau eraill yn bodoli. Mae torri bob dwy, neu'n ddelfrydol, pob tair blynedd yn galluogi gwrych i ddatblygu'r tyfiant ail a thrydedd flwyddyn sydd ei angen er mwyn i lwyni flodeuo a dwyn ffrwyth. Wrth gyfuno hyn â chodi'r uchder torri'n gynyddol, bydd torri ar gylchdro fel hyn yn osgoi rhoi gormod o straen ar y gwrych a'i gadw'n iach. Beth bynnag yw'r patrwm o dorri a ddefnyddir, ar ryw bwynt bydd angen adnewyddu bôn y gwrych ac ail-ddechrau'r cylch o dyfiant iach.



Ailffurfio

Yn hytrach na defnyddio peiriant ffustio, mae llif gron (top chwith) yn ddewis ymarferol a hyblyg sy'n gallu torri'n lân drwy ddeunydd llawer mwy o faint (canol chwith) na pheiriant ffustio (gwaelod chwith). Mae'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer ailffurfio gwrychoedd sydd wedi gordyfu ac sydd heb eu torri ers llawer o flynyddoedd, neu i reoli gwrychoedd ar gylchdro llawer hirach nag sy'n bosibl gan ddefnyddio peiriant ffustio, efallai unwaith yn unig bob 10 mlynedd. Mae'r malurion yn weddol hawdd eu casglu gyda llwythwr blaen.

Plygu

Ar un adeg, roedd plygu'n arfer cyffredin ar bron i bob fferm. Mae plygu gwrych yn golygu torri'n rhannol drwy bob cyff a'u plygu drosodd a'u gweu gyda'i gilydd i greu rhwystr byw trwchus, sy'n aildyfu o'r bôn (dde). Ar ôl adnewyddu gwrych yn y modd hwn, gellir ei gadw'n drwchus ac iach am lawer o flynyddoedd drwy dorri'n ystyriol cyn gadael i'r gwrych dyfu i fyny ar gyfer ei blygu eto. Mae angen i wrych fod o leiaf 3m o uchder ac yn ddelfrydol 4m o uchder cyn gellir ei blygu.

Bondocio

Mae bondocio'n golygu torri cyffion i lefel y ddaear a gadael i'r bonion aildyfu. Mae'n dechneg reoli arbennig o ddefnyddiol os yw gwrych yn barod ar gyfer ei adnewyddu ond heb ddigon o gyffion neu gyffion sy'n rhy fawr neu'n bwr. Hefyd mae'n ddefnyddiol ar gyfer gwrychoedd llydan iawn. Os diogelir y tyfiant newydd rhag pori gan geirw a da byw, gellir ail-greu gwrych trwchus yn y modd hwn mewn ychydig iawn o flynyddoedd. Hefyd mae'n rhoi'r cyfle i blannu mewn bylchau. Yn gyffredinol, gellir bondocio unrhyw wrych, ond mae gwrychoedd un rhywogaeth o ddrain gwynion gyda hen gyffion â diamedr trwchus sy'n dangos arwyddion o bydredd yn gallu ymateb yn wael.



Cystadleuaeth Plygu Gwrychoedd Cffil Brycheiniog, Y Batel, 2013. Llun: Cadwch Gymru'n Daclus.

Cylchdroeon enghreifftiol



Enghraifft un

Rydym yn edrych ar ddau wrych, un o bob pen y raddfa reoli. Mae'r gwrych ar bwynt 1 y raddfa (uchod) yn wrych wedi'i or-docio gyda llwyni nodweddiadol ar ffurf madarch, ac mae'r gwrych ar bwynt 9 (isod) wedi'i esgeuluso ers llawer o flynyddoedd. Ni ellir plygu'r un o'r gwrychoedd hyn yn llwyddiannus. Hyd yn oed os caiff y gwrych cyntaf ei adael i dyfu, ni fydd ganddo ddigon o gyffion, ac mae gan yr ail wrych gyffion sy'n rhy bell oddi wrth ei gilydd ac sydd hefyd yn rhy fawr i'w plygu. Yn y ddwy enghraifft hyn, bondocio yw'r unig ddewis sydd ar gael ar gyfer rheoli, ac un a fyddai hefyd yn galluogi plannu i lenwi bylchau.





Yn dilyn bondocio, bydd y rhan fwyaf o wrychoedd wedi tyfu yn ôl yn dda ar ôl dim ond dau dymor tyfu (uchod). Bydd tocio ysgafn rheolaidd yn y blynyddoedd cyntaf yn helpu i'w tewhau ond wedi hynny, bydd torri unwaith bob tair blynedd yn caniatáu i'r gwrych ddwyn ffrwythau a darparu cynefin da ar gyfer bywyd gwyllt.

Byddwch yn ymwybodol os bydd gwrych yn cael ei dorri yn ôl i'r un uchder dro ar ôl tro, wedi rhai blynyddoedd bydd cymalau caled (dde) yn dechrau ffrurfio ar y pwynt hwnnw. Pan welch chi hyn, dyma'r amser i godi'r uchder torri ar bob toriad (isod), neu bydd y gwrych yn dirywio ac unwaith eto bydd angen ymyrraeth fwy llym.



Enghraifft dau

Mae'r gwrych hwn, ar bwynt 3 y raddfa (isod), wedi'i or-docio ond y peth pwysig yw bod ganddo lawer o gyffion. Os byddwn yn gadael i'r gwrych dyfu'n uwch, yn raddol bydd ei gyflwr a'i werth fel cynefin yn gwella. Byddai'r llwyni'n parhau i gael eu cadw o dan reolaeth, ond caiff y straen sy'n bygwth eu lladd ei liniaru. Wedyn gellir plygu'r gwrych pan fydd yn ddigon uchel, neu ei fondocio, heb unrhyw angen am blannu newydd.

Os ydych yn dymuno plygu'r gwrych yn weddol fuan, un dewis fyddai tocio'r ochrau yn unig a gadael i'r top dyfu heb rwystr. Neu gellir torri'r top yn ogystal â'r ochrau, gan godi uchder y peiriant ffustio 10-15cm ar bob toriad, gan felly ymestyn y cyfnod cyn y bydd angen i chi fynd i'r gost o blygu neu fondocio.





Enghraifft tri

Mae'r gwrych hwn, ar bwynt 6 y raddfa (uchod), heb ei gyffwrdd ers 10 mlynedd, yn rhannol i arbed arian ar dorri. Yn ystod y cyfnod hwn mae wedi blodeuo'n dda a dwyn llawer o ffrwythau ac mae ei dyfiant trwchus wedi darparu cynefin gwych i fywyd gwyllt. Mae ailffurfio'r gwrych hwn gyda llif gron wedi'i gosod ar dractor yn ddewis cost-effeithiol ac effeithlon, a dylid torri'r ochrau yn gyntaf, ac wedyn y top. Dylai'r malurion ddisgyn i ffwrdd o'r gwrych fel y gellir eu gwthio'n bentwr gan ddefnyddio llwythwr blaen a'u llosgi. Wedyn gellir naill ai gadael y gwrych i fod am rai blynyddoedd, neu gellir ei dorri ar gylchdro, gan godi'r uchder torri'n raddol, hyd nes ei fod yn barod i'w adnewyddu drwy blygu neu fondocio.

Unwaith eto, y bwriad yw arafu datblygiad naturiol y gwrych cyn adfywio wrth y bôn, naill ai drwy blygu neu fondocio. Fodd bynnag, os byddwch yn ailffurfio gwrych, peidiwch â gwneud y camgymeriad o dorri ar yr un uchder am gyhyd fel ei fod yn dioddef straen a dechrau lithro i lawr y raddfa.

Gellir lawrlwytho cynnwys y pecyn hwn o www.longforest.cymru/cy/hefyd.

Am ragor o gymorth neu gyngor cysylltwch â longforest@keepwalestidy.cymru

Mae Cadwch Gymru'n Daclus, gan weithio mewn partneriaeth â Choed Cadw, gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Sefydliad Esmée Fairbairn, wedi datblygu prosiect y Goedwig Hir. Ynghyd, byddwn yn gweithredu'n ymarferol – gan recriwtio miloedd o wirfoddolwyr i blannu 100,000 o goed a gwella tua 120,000m o wrychoedd yng Nghymru.

Mae'r gyfres hon o lyfrynnau yn seiliedig ar y rhai mewn pecyn cynharach a gynhyrchwyd gan Hedgelink UK a Natural England. Rydym yn ddiolchgar am eu caniatâd caredig i atgynhyrchu eu deunydd yn y cyhoeddiad dwyieithog hwn, sydd wedi'i ddiweddarau a'i ddiwygio.

Argraffwyd ar ddeunydd wedi'i ailgylchu 100% gan ddefnyddio inciau llysieuol gan Symposium Print, Llandŵ, CF71 7PF info@symposiumprint.co.uk



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy



**Funding raised by
The National Lottery**
and awarded by the Heritage Lottery Fund

**Cyllid a godwyd gan
Y Loteri Genedlaethol**
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

